# Organebau wedi'u bridio'n fanwl mewn amaethyddiaeth

## Y mater

Mae 'organebau wedi'u bridio'n fanwl' (PBOau) yn blanhigion neu anifeiliaid a newidiwyd gan ddefnyddio technegau addasu genynnau i greu newidiadau genetig a allai ddigwydd trwy fridio traddodiadol neu fwtaniad naturiol, ond yn fwy cyflym a manwl gywir. Yn wahanol i ddulliau addasu genetig hŷn, nid ydynt yn cynnwys DNA o rywogaethau nad ydynt yn gydnaws yn rhywiol. Mae PBOau yn organebau wedi'u haddasu'n enetig (GMOau), sydd wedi'u gwahardd mewn ffermio organig o dan safonau'r Deyrnas Unedig a safonau rhyngwladol.

O ganlyniad i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, gall PBOau a gynhyrchwyd yn Lloegr o dan Reoliadau Technoleg Enetig (Bridio Manwl) 2025 gael eu marchnata yng Nghymru a'r Alban er bod rheolaethau llymach ar waith yma. Nid yw rheoliadau Lloegr yn mynnu bod PBOau yn cael eu labelu a'u holrhain na bod cadwyni cyflenwi'n cael eu gwahanu, sy'n bygwth cadwyni cyflenwi organig a chyfyngu ar ddewis i ddefnyddwyr. Canfu her gyfreithiol yn yr Uchel Lys a arweiniwyd gan Beyond GM ym mis Mehefin 2026 nad oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn deall y canlyniadau arwyddocaol – i ffermwyr, busnesau, defnyddwyr a'r sector organig – sy'n deillio o ddileu tryloywder a labelu ar gyfer cnydau a bwydydd yr addaswyd eu genynnau.

Honnir bod bridio manwl yn cynnig buddion, gan gynnwys cnydau mwy gwydn, ymwrthedd i glefydau, a defnyddio llai o blaleiddiaid, er bod y sylfaen dystiolaeth yn gyfyngedig o hyd ac nid yw effeithiau hirdymor wedi'u sefydlu eto. Mae'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn Lloegr yn hwyluso datblygu a masnacheiddio PBOau heb gyfyngu bridio manwl i ganlyniadau penodol. Mae bridio planhigion yn cael ei breifateiddio fwyfwy, ac nid yw buddiannau masnachol bob amser yn cyd-fynd ag anghenion cymdeithasol.

## Pam mae'n bwysig i Gymru

Mae Cymru a'r Alban wedi cadw'r ymagwedd at GMOau sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn golygu bod PBOau yn parhau i gael eu trin fel GMOau yma, sy'n creu dwy haen reoleiddio ledled Prydain Fawr. Mae rheoliadau Lloegr yn rhoi'r baich o osgoi PBOau yn gyfan gwbl ar gadwyni cyflenwi organig ac yn cyflwyno heriau ymarferol ac ariannol ar gyfer ardystio a masnachu. Bydd busnesau a defnyddwyr yn wynebu costau personol sylweddol o ran arian ac amser i ganfod a yw cynhyrchion yn cynnwys PBOau, a allai niweidio ymddiriedaeth defnyddwyr a tharfu'n fawr ar farchnad organig y Deyrnas Unedig sy'n werth £3 biliwn. Fe allai rhanbarthau datganoledig sy'n ceisio cyd-fynd â'r Undeb Ewropeaidd wynebu rhwystrau i fasnach hefyd o ganlyniad i ddadreoleiddio ledled y Deyrnas Unedig.

## Cyd-fynd â chyd-destun polisi Cymru

Nid yw Cymru wedi mabwysiadu'r un ymagwedd ddadreoleiddiol. Mae ein fframwaith amaethyddol, a sefydlwyd trwy Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ac sydd wedi'i ategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn pwysleisio canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar gyfer y fferm gyfan yn hytrach nag atebion technolegol.

**Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol**
Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/who-we-are/soil-association-wales

Soil Association CYMRU

**Ein safbwynt**

Mae bridio manwl yn achos pryder difrifol i Gymdeithas y Pridd. Bathwyd y term 'wedi'i fridio'n fanwl' ar gyfer Deddf Bridio Manwl 2023 ac nid yw wedi'i sefydlu mewn disgwrs wyddonol. Mae'r diffiniad ohono'n amwys ac yn ymddangos fel petai wedi'i ffurfio'n fwy gan dderbynioldeb cyhoeddus na gwyddoniaeth. Heb labelu gorfodol a'r gallu i olrhain yn gadarn, mae ffermwyr organig yn wynebu beichiau cystadleuol annheg tra bod defnyddwyr yn colli'r hawl i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Mae'r dechnoleg yn cael ei sbarduno gan fuddiannau corfforaethol yn hytrach na rhai cyhoeddus, ac nid yw honiadau cynaliadwyedd wedi'u profi ar raddfa fawr, a allai dynnu'r sylw oddi ar y dulliau fferm gyfan, wedi'u seilio ar systemau sy'n fuddiol i adfer natur a gwydnwch hinsawdd. Lle ceir ansicrwydd gwyddonol, mae'n rhaid cymhwyso'r egwyddor ragofalus – fel y gwneir yng Nghymru ar hyn o bryd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026.

**Sut rydym yn mynd i'r afael â hyn**

Mae Cymdeithas y Pridd yn ymwneud yn weithredol â Deialog Rhanddeiliaid ar Dechnolegau Genetig Defra, gan wthio am fesurau cydfodoli a thryloywder cadwyn gyflenwi. Mae ein Cyfarwyddwr Polisi wedi cyflwyno ein hachos i Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, lle'r oedd Aelodau Seneddol a chynrychiolwyr y diwydiant yn cydymdeimlo â'n pryderon. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ledled y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd – gan gynnwys GM Freeze ac IFOAM – i ddeall ac ymateb i'r goblygiadau i fasnach wrth i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ddatblygu.

## Yr hyn rydym eisiau i lunwyr polisïau yng Nghymru ei wneud

- **Cymhwysedd datganoledig a chyfatebiaeth â'r Undeb Ewropeaidd:** cynnal fframwaith GMO presennol Cymru, gwrthsefyll pwysau i fabwysiadu dull caniataol Lloegr, ceisio darbwyllo San Steffan ynglŷn â labelu gorfodol ledled y Deyrnas Unedig, a blaenoriaethu cyfatebiaeth â rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd i warchod allforwyr organig Cymru

- **Bioamrywiaeth ac adfer natur:** asesu goblygiadau PBO i dargedau adfer natur statudol Cymru, gan gynnwys risgiau sy'n deillio o unffurfiaeth enetig, dibyniaeth ar fewnbwn, a phwysau dwysáu

- **Caffael cyhoeddus:** sicrhau bod ymrwymiadau o dan y Strategaeth Fwyd Genedlaethol arfaethedig yn amddiffyn cadwyni cyflenwi organig ac nad ydynt wedi'u bridio'n fanwl

- **Lles anifeiliaid:** asesu p'un a yw addasu genynnau wrth gynhyrchu anifeiliaid yn gyson â'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid

**Tystiolaeth/cyfeiriadau**

- Cymdeithas y Pridd: Atal Addasu Genetig
- Y Pwyllgor Cynghori ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd (ACRE): Adroddiad Blynyddol 2024 - GOV.UK

**Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol**

Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/who-we-are/soil-association-wales